# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

**EOC(3)-13-08(p.1")" 16 Hydref 2008**

**Pwnc: Effaith y Gyllideb ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol**

### Pwrpas

Rhoi'r newyddion diweddaraf ar effaith y gyllideb y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno arni ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol.

### Y Cefndir

Y llynedd, bu'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystyried papur a oedd yn trafod effaith setliad y gyllideb ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol. Eleni, bwriad y papur hwn yw adrodd, nid yn unig ar y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb, ond hefyd ar ymrwymiadau yn yr adran yn Cymru'n Un ar Gymdeithas Deg a Chyfiawn, a rhai o'r camau sy'n denu gwariant o Gynlluniau Gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Unigol.

Nid yw'n adroddiad cynhwysfawr ar yr holl gyllid sydd ar gael, ond mae'n tynnu sylw at rai meysydd y bwriedir gwario arnynt. Dylid nodi nad yw'r ffigurau a nodir yn y papur hwn yn rhai terfynol ac y dylid cofio hynny wrth ddarllen y papur. Bydd y cynlluniau cyllidebol newydd ar gyfer Cymru'n golygu y caiff gwasanaethau cyhoeddus o'r radd uchaf eu darparu mewn modd effeithiol ac y bydd pobl yn cael cymorth ymarferol – lle mae'n cyfrif fwyaf.

Er mwyn cyflawni hyn, mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn llinyn sy'n rhedeg trwy holl waith Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym wedi ymrwymo i egwyddor prif-ffrydio; hynny yw, cynnwys egwyddorion cyfle cyfartal yn strategaethau, gweithredoedd a gwaith bob dydd y llywodraeth. Felly, cydnabyddir y bydd cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru heblaw'r hyn a nodir yn y papur hwn yn effeithio ar grwpiau cydraddoldeb.

Mae'r Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu yn gwneud gwaith cydgysylltu er mwyn sicrhau bod yr holl Adrannau'n ymwybodol o'u dyletswyddau statudol ym maes cydraddoldeb ac yn eu cyflawni. Mae'r model Gwneud Polisïau Cynhwysol (asesu'r effaith ar gydraddoldeb) yn hybu gweithio cydgysylltiedig ac yn helpu adrannau i ystyried sut y gallai polisïau strategol newydd neu ddiwygiedig effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnig trefn i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, neu gynyddu cyfleoedd i hybu cydraddoldeb.

### Y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb

Mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyfleoedd cyfartal yn rhan hanfodol o waith Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud trefniadau priodol gyda'r nod o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu hymarfer gan dalu sylw dyledus i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal. Pwrpas y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb yw helpu i weithredu'r themâu allweddol ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol a nodir yn Cymru'n Un ac mewn unrhyw Gynllun Cydraddoldeb Unigol a geir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o hyn ymlaen.

### Adolygu'r Gronfa

Yn dilyn adolygiad mewnol o'r gronfa gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007, gofynnwyd i'r swyddogion ystyried yr argymhellion ar gyfer dosbarthu'r cyllid yn fwy effeithiol er mwyn cyfrannu'n well at ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i brif-ffrydio a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Y cynigion hyn yw'r sail ar gyfer dogfen ymgynghori ar newidiadau i'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb, a gychwynnwyd ym mis Medi 2008. Rhoddir blwyddyn arall o gyllid trosiannol cyn gwneud newidiadau yn dilyn yr ymgynghoriad.

### Y Gyllideb

Ceir cyllideb o £883,000 ar gyfer y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb yn 2009/2010.

### Ymrwymiadau Cymru'n Un – Cymdeithas Deg a Chyfiawn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i greu Cymru lle nad oes neb yn byw mewn tlodi, lle na wahaniaethir yn eu herbyn, a lle nad oes ofn na cham-drin. Bydd llawer o'r camau a nodir ym Mhennod 7: Cymdeithas Deg a Chyfiawn yn golygu gwario i hybu cydraddoldeb.

### Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Ym mis Mehefin 2008, fe wnes i lansio'r Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid yn Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, Casnewydd. Nod y Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid yw cefnogi ffoaduriaid a'u galluogi i ailadeiladu eu bywydau yng Nghymru gan gyfrannu'n llawn at gymdeithas. Mae'r Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid yn amlinellu'r camau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod ffoaduriaid ledled Cymru'n cael eu cynnwys yn y gymdeithas.

Er bod y strategaeth yn ymwneud â chynnwys ffoaduriaid, mae ynddi ddarpariaethau sy'n benodol ar gyfer ceiswyr lloches hefyd. Un o'r

egwyddorion y seiliwyd y strategaeth arni yw bod y broses o gynnwys ffoaduriaid yn dechrau ar y diwrnod y maent yn cyrraedd y Deyrnas Unedig ac, os yw safon y trefniadau derbyn yn dda a bod pobl yn cael profiadau derbyniol fel ceiswyr lloches, eu bod yn fwy tebygol o gael eu derbyn yn llwyddiannus i'r gymdeithas.

Er mwyn sicrhau bod y Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod ffoaduriaid yn cael eu cynnwys i'r gymdeithas, ceir pwyntiau gweithredu i gyd-fynd â'r amcanion strategol unigol a nodir yn y Strategaeth.

Mae'r Grant Cynhwysiant yn £800,000 refeniw yn 2008-09 a bydd yn codi i £1 miliwn yn 2009-2010. O'r £800,000 yn 2008-2009, mae £679,460 eisoes wedi'i glustnodi ar gyfer ei wario ar faterion yn ymwneud â ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac mae nifer o ymrwymiadau ariannol yn y cynllun gweithredu eisoes yn cael eu rhoi ar waith.

Ym mlwyddyn ariannol 2009-2010, mae'n debygol y bydd swm y cyllid sydd ar gael ar gyfer y sector ffoaduriaid yn parhau rhywbeth yn debyg.

### Sipsiwn-Teithwyr

Mae dogfen Cymru'n Un yn rhwymo Llywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi strategaeth genedlaethol ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr. Mae'r strategaeth wrthi'n cael ei datblygu ac mae gwaith ymchwil ar y gweill i gyfrannu at ei datblygiad. Defnyddiwyd Grant Cynhwysiant 2008-2009 o £800,000 i ariannu nifer o brosiectau i dynnu sylw at faterion yn ymwneud â Sipsiwn-Teithwyr. Yn 2008-2009, defnyddiwyd y grant i ran-ariannu swydd allgymorth gyda mudiad Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru a gwaith ymchwil ar gyfer y Strategaeth Sipsiwn-Teithwyr. Yn 2009-2010, bydd y grant yn codi i £1 miliwn a disgwylir i ragor o arian gael ei wario ar faterion yn ymwneud â Sipsiwn-Teithwyr.

Yn ogystal, mae'r Tîm Sipsiwn-Teithwyr yn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn rheoli dau grant cyfalaf ar gyfer safleoedd Sipsiwn-Teithwyr. Ym mlwyddyn ariannol 2007-2008, lansiwyd grant o £1 miliwn i adnewyddu safleoedd Sipsiwn-Teithwyr. Sicrhawyd rhagor o arian ac, ym mlwyddyn gyntaf y grant, dyfarnwyd £1.7 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru i adnewyddu safleoedd presennol Sipsiwn-Teithwyr.

Lansiwyd grant adnewyddu 2008-2009 yn gynharach eleni a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 1 Medi. Yn ogystal, lansiwyd grant newydd i ddarparu safleoedd newydd yn ystod yr haf 2008. Mae'r grant ar gyfer safleoedd newydd i Sipsiwn-Teithwyr yn £1.5 miliwn. Mae'r grantiau hyn yn golygu bod £2.5 miliwn ar gael i awdurdodau lleol a bydd yr un lefel o arian cyfalaf ar gael ym mlwyddyn ariannol 2009-2010.

### Tlodi Plant

Lansiwyd strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cynulliad Cymru, Dyfodol Teg i'n Plant, ym mis Chwefror 2005. Mae'r Strategaeth yn cadarnhau ymrywmiad Llywodraeth y Cynulliad i wneud yr hyn a all i ddileu tlodi plant erbyn 2020 ac i'w haneru erbyn 2010, o'i gymharu â ffigurau 1997. Mae cynnwys y Strategaeth wedi'i seilio ar ganfyddiadau adroddiad y Grwp Gorchwyl Tlodi Plant annibynnol yn 2004 ac ymgynghoriad ar yr adroddiad hwnnw.

Er mwyn symud ymlaen â'r Strategaeth a darparu fframwaith strategol ar gyfer y gwaith trawsbynciol sy'n angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant, cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar Dlodi Plant a'r papur cysylltiedig yn cynnwys cerrig milltir a thargedau, Cael Gwared ar Dlodi Plant yng Nghymru – Mesur Llwyddiant, yn 2006. Roedd hwn yn nodi camau a datrysiadau neilltuol i integreiddio polisïau a rhaglenni i gael gwared ar dlodi plant yng Nghymru erbyn 2020, gan adeiladu ar raglenni gwrth-dlodi oedd yn bodoli eisoes fel Dechrau'n Deg, Cymorth a Chymunedau yn Gyntaf.

### Cymru'n Un a Thri Phrif Faes

Yng nghytundeb Cymru'n Un, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ail-ymrwymo i ymdrechu i haneru Tlodi Plant erbyn 2010 ac i gael gwared arno erbyn 2020 trwy ddatblygu mwy o ddatrysiadau sy'n arbennig o berthnasol i Gymru a thrwy integreiddio strategaethau gyda rhaglenni sy'n dal o fewn cylch gwaith Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae Cymru'n Un yn cynnwys nifer o ymrwymiadau newydd sy'n anelu'n benodol at fynd i'r afael â thlodi plant ac at hybu'r ymdrechion i gyrraedd y targedau uchel ym maes tlodi plant.

Fe wnes i gadarnhau – mewn Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2008 – y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n canolbwyntio ar dri maes wrth weithredu o hyn ymlaen:

Maes 1 Gwella'r cyfleoedd a gaiff plant difreintiedig mewn bywyd;

Maes 2 Mentrau cynhwysiant ariannol; a

Maes 3 Annog mwy i fanteisio ar gymorth Llywodraeth y DU o ran trethi a budd-daliadau.

Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig arall ar 16 Gorffennaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar ddatblygiadau allweddol a gafwyd yn ddiweddar mewn perthynas ag agenda tlodi plant Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Y Gyllideb

Mae asesiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o wariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fynd i'r afael â thlodi plant. Rydym yn trefnu bod swm sylweddol o gyllid ar gael trwy bolisïau a mentrau amrywiol i helpu i fynd i'r afael â thlodi plant. Er enghraifft:

Bydd cyfleusterau gofal plant yn cael gostyngiad o 50% os yw gwerth ardrethol yr adeilad y maent yn ei ddefnyddio yn llai na £12,000. Mae hyn yn golygu y gall gofal plant gael rhyddhad ardrethi o hyd at tua £2,800.

Mae £160 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y rhaglen Cymorth dros y tair blynedd nesaf;

- Trefnir bod £89 miliwn ar gael trwy Dechrau'n Deg dros y tair blynedd nesaf;

- Mae £32 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y prosiect Yn Awyddus i Weithio i helpu pobl i gael gwaith ac mae £12 miliwn arall ar gael yn Nwyrain Cymru;

Mae £5 miliwn y flwyddyn yn cael ei ddarparu ar gyfer cynlluniau nofio am ddim yng Nghymru;

Bydd £5 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn Premiwm Cymreig i'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant rhwng 2009 a 2011;

Trefnir bod £3 miliwn ar gael i annog rhagor o bobl i fanteisio ar fudd-dal y dreth gyngor a budd-dal tai.

Bydd £70 miliwn ar gael i Genesis Cymru Wales 2 i fynd i'r afael â llawer o'r prif rwystrau sy'n wynebu pobl ddi-waith, yn cynnwys gofal plant.

## Strategaeth Cydlyniant Cymunedol / Troseddau Casineb

Mae Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno i fynd i'r afael â throseddau casineb a hybu cydlyniant cymunedol trwy strategaeth ymbarél ar gydlyniant cymunedol. Bydd hyn yn rhoi cyfeiriad strategol i'r agenda cydlyniant cymunedol wrth iddi ddatblygu o hyn ymlaen yng Nghymru, i hyrwyddo a meithrin cymunedau mwy cydlynus, lle mae pobl yn rhannu gwerthoedd a lle ceir cyfle cyfartal ym mhob rhan o gymdeithas.

Un o themâu allweddol strategaeth cydlyniant cymunedol yw ei bod wedi'i seilio ar anghenion hysbys mewn ardal ac wedi'i pharatoi'n neilltuol i ddiwallu anghenion penodol yr ardal honno. Dylid edrych ar gydlyniant cymunedol fel dull rhagweithiol hirdymor o wella a chryfhau cymunedau yng Nghymru ac nid fel cam adweithiol tymor byr.

Bydd y gwaith angenrheidiol i hybu cydlyniant cymunedol yn wahanol ym mhob cymuned. Mewn rhai ardaloedd, mae'n bosib y bydd angen dechrau trwy ganolbwyntio ar waith tymor byr gyda grwpiau o leiafrifoedd ethnig a grwpiau o gymunedau newydd, ond mae cydlyniant cymunedol yn ymwneud â mwy na thensiynau tymor byr ynghylch ffydd ac ethnigrwydd. Hyd yn oed mewn ardaloedd daearyddol lle na chafwyd newidiadau sylweddol o ran amrywiaeth ethnig, mae lle pwysig i strategaeth cydlyniant cymunedol. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ddrafft yn dechrau ym mis Tachwedd 2008.

## Y Gyllideb

Ni roddwyd ystyriaeth fanwl i oblygiadau ariannol y Strategaeth o ran yr hyn y byddai'n ei gostio i bartneriaid weithredu'r holl gamau a argymhellir. Fel rhan o'r gyllideb ddrafft, cynigir bod £200,000 o refeniw bob blwyddyn o 2009-10 ymlaen yn cael ei drosglwyddo o linell wariant cyllideb Ymchwil a Gwerthuso Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i linell wariant y gyllideb Cynhwysiant ar gyfer y gwaith ar gydlyniant cymunedol.

## Y Cynllun Cydraddoldeb Unigol

aw'r enghreifftiau isod o'n Cynlluniau Gweithredu ar y Cynllun Cydraddoldeb Unigol.

### Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu

Er mwyn denu rhagor o geisiadau a phenodiadau cyhoeddus o blith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, bydd yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn parhau, a rhoddir hyfforddiant ar y broses penodiadau cyhoeddus i helpu pobl mewn grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ddeall y drefn yn well ac i gael mwy o hyder ynddi. Mae cyllid o £80,000 ar gael yn 2008-09, 2009-10 a 2010-11.

### Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Nod y Grant Rheoli Tai Cymdeithasol (SHMG) yw sicrhau safonau uchel wrth reoli tai. Ceir gyllideb benodol o £410,000 i ateb anghenion pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig fel rhan o gyllideb gyfan yr SHMG o £2.17 miliwn. Dyma rai o'r prosiectau sy'n ymwneud yn benodol â chydraddoldeb yn y maes hwn:

Tai Pawb yn cael £225,000 i hybu agwedd strategol at gydraddoldeb hiliol, sicrhau rhagor o degwch ym maes tai, hybu arferion da a gweithredu strategaethau i dynnu mudiadau lleiafrifoedd ethnig a thenantiaid i mewn fel y gallant ddylanwadu ar wasanaethau.

Nid yw'r cylch bidio ar gyfer 2009-10 wedi'i gwblhau eto ac felly nid oes rhestr lawn o'r prosiectau ar gael.

Mae rhaglen y Grant Digartrefedd yn ariannu 155 o brosiectau am gyfanswm o £6.4 miliwn. Ni chesglir data cynhwysfawr am gleientiaid ond mae teitlau'r prosiectau'n dangos bod peth o'r arian hwn yn cael ei dargedu at grwpiau penodol, yn enwedig pobl ifanc, ffoaduriaid, pobl sydd â salwch meddwl a phobl sy'n dioddef oherwydd trais domestig. Mae trefn fonitro gadarnach yn cael ei datblygu i geisio mesur yn fwy manwl sut y mae'r rhaglen hon yn effeithio ar gydraddoldeb.

Mae rhaglen y Grant Cefnogi Pobl yn ariannu prosiectau ar gyfer grwpiau cleientiaid penodol. Mae'r rhain yn cynnwys pobl sydd ag

anawsterau dysgu, pobl ag anableddau corfforol, pobl â salwch cronig a menywod sy'n chwilio am loches.  Cafodd yr Awdurdodau Lleol £73 miliwn ar gyfer 2008/2009. Bydd y cyllid hwn yn parhau ar gyfer y flwyddyn 2009/2010.

Mae'r Grant Tai Cymdeithasol yn ariannu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddiwallu gofynion pobl sy'n cael eu pennu gan Awdurdodau Lleol.  Gellir ei ddefnyddio i gefnogi gwahanol gynlluniau, yn cynnwys cynlluniau ar gyfer pobl hyn a phobl y mae arnynt angen cymorth i fyw'n annibynnol.  Cynhelir adolygiad sylfaenol o'r Grant ar gyfer 2009 a bydd hyn yn cynnwys talu sylw i faterion cydraddoldeb.  Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2009-10 yn £82.3 miliwn.

Bydd y Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir yn darparu'n benodol ar gyfer pobl sydd â phroblemau symud, yn cynnwys pobl anabl.  Yn 2008-09, y targed yw gwneud 15 km o lwybr arfordirol yn addas ar gyfer pobl sydd â phroblemau symud.  Nid oes cyllideb benodol ar gyfer darpariaethau i bobl anabl ond mae cyllideb gyffredinol y rhaglen yn £2m ar gyfer 2008-09 a disgwylir y bydd o leiaf gymaint a hynny ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol nesaf hefyd.

### Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Fel rhan o'r gwaith i annog grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ystyried gyrfaoedd mewn rhai sectorau penodol, mae rhaglen ariannu dair blynedd ar y gweill gyda Chwarae Teg i wella sefyllfa menywod yn y farchnad waith.

Mae Chwarae Teg yn gweithredu ledled Cymru i geisio manteisio i'r eithaf ar gyfraniad menywod i economi Cymru.  Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi cyllid craidd i Chwarae Teg i gefnogi ei waith strategol a gweithredol yn dylanwadu ar ddatblygiad polisi; yn hybu arferion da; yn dangos ac yn creu arferion gorau; ac yn gwneud gwaith ymchwil a datblygu.  Rhoddir cyllid craidd o £402,000 yn 2008-09 a bydd yn codi i £411,698 yn 2009-10.

### Adran yr Economi a Thrafnidiaeth

Er mwyn cynyddu cyfranogiad economaidd pobl mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, menywod a rhieni unigol, mae WISE a Female Inventors yn cael cymorth i annog menywod i fentro i faes gwyddoniaeth a pheirianneg.  Mae Women Inventors yn cael £15,000 a Women in Science and Engineering yn cael £20,000.

### Yr Adran Adnoddau Dynol

Er mwyn ceisio gwneud gweithlu Llywodraeth Cynulliad Cymru'n fwy cynrychioliadol, mae rhaglen allgymorth yn cael ei datblygu.  Darperir cynlluniau lleoliadau â thâl ar gyfer grwpiau o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a theithwyr. Ceir cynlluniau graddedigion wedi'u targedu at bobl anabl a rhai o leiafrifoedd ethnig a nifer o gynlluniau eraill wedi'u hanelu at bobl o leiafrifoedd ethnig, menywod, pobl anabl a phobl sydd ag anawsterau dysgu, anghenion arbennig neu broblemau iechyd meddwl.  Clustnodir £210,000 i wneud y gwaith hwn.

Er mwyn datblygu gallu staff sy'n dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, trefnir rhaglenni rheoli ac arwain ar eu cyfer fel eu bod yn cael mwy o gyfle i symud ymlaen yn eu gwaith.  Clustnodir £40,000 i wneud y gwaith hwn.

### Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd

Ceir ymrwymiad i sicrhau bod modd gwneud a dylanwadu ar welliannau o ran tegwch mynediad at y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru trwy brif-ffrydio cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.  Bydd Fframwaith Strategol Iechyd y Cyhoedd, 'Ein Dyfodol Iach',  yn cael ei weithredu. Ei ddau nod cyffredinol yw gwella ansawdd a hyd bywyd a sicrhau mwy o degwch mewn iechyd.  Yn unol ag ymrwymiad Cymru'n Un, bwriedir ymestyn y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.  Bydd y Gronfa'n hybu datblygiad 'Ein Dyfodol Iach' ynghyd â phecyn o ymrwymiadau / cynigion eraill ym maes iechyd y cyhoedd y mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthi'n eu hystyried.

Mae gan y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd gyllideb o £6.528m ar gyfer 2009-10.

**Dr Brian Gibbons AC**

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**